OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1076 (Cy.114)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*27 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw wrth lunio'r Rheoliadau fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007, deuant i rym ar 6 Ebrill 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003

2. Diwygir Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003(**4**) diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 5.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y diffiniad o "Cyfarwyddeb 2002/46" mewnosoder ar y diwedd ", fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/37/EC(**5**) sy'n diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/46/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cynnwys sylweddau penodol".

4. Yn Atodlen 1 (fitaminau a mwynau y caniateir eu defnyddio wrth gynhyrchu ychwanegion bwyd), yn Adran 1 (fitaminau), yn lle "Asid ffolig" rhodder "Ffolad".

(**1**) 1990 p. 16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 ac 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S.2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Secretary of State", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t. 1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf o ran y dyddiad y cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L 100, 8.4.2006, t.3).

(**4**) O.S. 2003/1719 (Cy. 186), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

(**5**) OJ Rhif L94, 1.4.2006, t.32.